**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
14 Mehefin 2023

**Rhan 1**

## 1 Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau 2023”) yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

1.2 Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio rheoliadau cymorth i fyfyrwyr sydd eisoes yn bodoli er mwyn:

- gwneud mân gywiriadau i'r diffiniad o berson y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu ganiatâd i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan, sy'n deillio o newidiadau i'r rheolau mewnfudo;
- gwneud mân gywiriadau i'r rhestr o diriogaethau tramor a thiriogaethau tramor Prydeinig penodedig; a
- sicrhau nad yw personau y rhoddir caniatâd penodol iddynt i aros yn y DU ac y dyfernir dinasyddiaeth Brydeinig neu Wyddelig iddynt wedi hynny yn colli cymhwystra i gael cymorth i fyfyrwyr.

## 2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3 Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau 2023 o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarndaliadau) 1983; adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (“Deddf 1998”); ac adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

3.2 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.

3.3 Roedd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Roedd adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 i fod i gael eu harfer yn gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.6 Bob blwyddyn, mae nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 yn cael eu dirprwyo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

3.7 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, a myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU.

4.2 Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio rheoliadau cymorth i fyfyrwyr sydd eisoes yn bodoli fel a amlinellir ym mharagraffau 4.3 – 4.7.

*Tiriogaethau Tramor Prydeinig a Thiriogaethau Tramor*

4.3 Bydd y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a'r rheoliadau cysylltiedig yn cael eu diwygio i sicrhau eu bod yn gyson â Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 fel a ganlyn:

- yn lle 'St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Ynys Ascension a Tristan da Cunha)' ac amrywiadau eraill ar yr enw rhodder y teitl cywir 'St Helena, Ascension a Tristan da Cunha'; ac
- yn lle 'Ynysoedd Prydeinig y Wyryf' rhodder y teitl cywir 'Ynysoedd y Wyryf'.

*Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt i ddod i mewn neu ganiatâd i aros fel dinasyddion perthnasol o Affganistan*

4.4 Bydd Rheoliadau 2023 yn diwygio'r diffiniad presennol o ddinesydd perthnasol o Affganistan i ychwanegu cyfeiriad at baragraff ARAP 16.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo.

4.5 Bydd Rheoliadau 2023 hefyd yn diwygio'r diffiniad o ddinesydd perthnasol o Affganistan i ychwanegu darpariaeth i gyfeirio at ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.2 o'r Atodiad hwnnw.

4.6 Nid yw'r diwygiadau a nodir ym mharagraffau 4.4 i 4.5 uchod yn newid polisi ond maent yn adlewyrchu'r newidiadau yn y rheolau mewnfudo fel bod y polisi presennol yn cael effaith.

*Datgymhwyso terfynu cymhwystra yn gynnar*

4.7 Mae'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn darparu bod person sydd â chaniatâd i fod yn y DU o ganlyniad i fod angen diogelwch dyngarol i fod yn gymwys am gymorth i fyfyrwyr. Bydd Rheoliadau 2023 yn diwygio darpariaethau sydd eisoes yn bodoli i sicrhau nad yw'r personau hyn yn colli eu cymhwystra i gael cymorth i fyfyrwyr pan fyddant yn dilyn hynny wedi cael dinasyddiaeth Brydeinig neu Wyddelig. Mae personau a ddiogelir yn cynnwys ffoaduriaid, gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir, personau sydd â chaniatâd i aros fel personau diwladwriaeth, personau sydd â diogelwch dyngarol, personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, pobl sydd â chaniatâd Calais i aros, a phersonau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu ganiatâd i aros fel dinasyddion perthnasol o Affganistan.

## 5 Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gan nad yw'r diwygiadau wedi deillio o newid mewn polisi ond o newid mewn terminoleg neu yn y rheolau mewnfudo ac i gywiro'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr i ddileu bwlch yn y ddarpariaeth fel sydd wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2023. Yr unig fater sy'n sylweddol yw'r diwygiad i sicrhau na therfynir cymhwystra am gymorth i fyfyrwyr ar gyfer y personau hynny y rhoddir caniatâd iddynt i aros yn y DU ac y dyfernir dinasyddiaeth Brydeinig neu Wyddelig iddynt yn dilyn hynny.

### 6. Opsiynau

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

6.1 Os na wneir Rheoliadau 2023, yna ni fydd personau y rhoddir caniatâd iddynt i aros yn y DU ac y dyfernir iddynt yn dilyn hynny ddinasyddiaeth Brydeinig neu Wyddelig yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr mwyach. Mae hyn yn groes i bolisi.

*Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

6.2 Mae gwneud Rheoliadau 2023 yn sicrhau bod y canlyniadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir.

### 7. Costau a manteision

*Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

7.1 Byddai gadael y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr sydd eisoes yn bodoli yn eu lle yn golygu nad eir i unrhyw gostau ychwanegol drwy'r system cymorth i fyfyrwyr.

*Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau 2023*

7.2 Mae gwneud Rheoliadau 2023 yn sicrhau y bydd personau y dyfernir iddynt ddinasyddiaeth Brydeinig neu Wyddelig yn dilyn cael caniatâd i aros yn y DU yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, yn unol â pholisi.

7.3 Nid oes data ar gael ar nifer y personau y gall dinasyddiaeth Brydeinig neu Wyddelig gael ei dyfarnu iddynt yn dilyn cael caniatâd i aros yn y DU, ond credir mai niferoedd bach iawn fyddai’r rhain a bydd y costau'n cael eu talu o fewn y cyllidebau presennol. Mae'n wir y byddai'r myfyrwyr hyn wedi bod yn derbyn cymorth ariannol cyn y newid yn eu statws dinasyddiaeth.

## 8. Asesiad o'r gystadleuaeth

8.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2023 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## 9. Asesu ar ôl gweithredu

9.1 Mae’r rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn destun adolygiad manwl, parhaus gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi o ran gweithredu’r rheoliadau’n ymarferol.